

Adroddiad ar gyfer	Y Panel Gweithredol	
Dyddiad	22/10/2018	
Swyddog Arweiniol	Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	
Swyddog Cyswllt	Richard Fairhead (01745 535257)	
Pwnc	Arolygiad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r aelodau am yr arolygiad y mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am ei gynnal ar Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC).

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Ym mis Gorffennaf 2018, cafodd y Gwasanaeth wybod am fwriad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i gynnal arolygiad ar GTAGC fel rhan o'i raglen o arolygiadau o Wasanaethau Tân ac Achub ledled y Deyrnas Unedig. Bydd yr arolygiad ar GTAGC yn cael ei gynnal ar 24 a 25 Hydref 2018. Mae grŵp llywio dan arweiniad swyddog yn goruchwyllo'r paratodau, gan gynnwys casglu tystiolaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

ARGYMHELLION

- 3 Bod yr aelodau'n nodi'r wybodaeth sy'n cael ei darparu yn yr adroddiad.

CEFNDIR

- 4 Ym mis Tachwedd 2009, roedd GTAGC yn un o wyth o Wasanaethau Tân ac Achub a gafodd eu harolygu gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Cafodd GTAGC adroddiad unigol yn cynnwys argymhellion penodol yn ogystal ag adroddiad cyfunol gydag argymhellion mwy cyffredinol yn deillio o'r holl arolygiadau a gynhaliwyd.
- 5 Aethpwyd i'r afael â'r holl argymhellion blaenorol yn 2010, ac mae'r rheini wedi cael eu hadolygu wrth baratoi ar gyfer yr arolygiad eleni.
- 6 Ym mis Gorffennaf 2018, cafodd GTAGC wybod bod GTAGC yn un o chwe Gwasanaeth Tân ac Achub y byddai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ymweld â nhw fel rhan o'i raglen o arolygiadau eleni. Y pump arall yw Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Manceinion Fwyaf, Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Swydd Efrog, Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Canolbarth Lloegr, Gwasanaeth Tân ac Achub Dyfnaint a Gwlad yr Haf, a Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban.

- 7 Deallir y bydd yr arolygiad yn dilyn fframwaith cyfarwyddyd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar reoli iechyd a diogelwch yn llwyddiannus (sef HSG65), ac mae rheoli iechyd a diogelwch yn cael ei asesu drwy roi ystyriaeth benodol i'r meysydd canlynol:
- sut mae cymhwysedd yn cael ei gynnal mewn hyfforddiant offer anadlu ac ymddygiad tân cydrannol;
 - sut mae cymhwysedd yn cael ei gynnal ar gyfer gorchymyn mewn digwyddiadau;
 - sut mae cael gafael ar, a rhannu, gwybodaeth gritigol ar gyfer gwneud penderfyniadau gweithredol; a
 - sut mae'r hyn a ddysgir o ddigwyddiadau y tu allan i'r Gwasanaeth yn cael ei rannu a'i ddilyn.
- 8 Mae arolygiad GTAGC wedi'i drefnu ar 24 a 25 Hydref 2018.

GWYBODAETH

- 9 Mae grŵp llywio, dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Fairhead, wedi cael ei sefydlu i baratoi ar gyfer yr arolygiad. Mae gweithgorau ar gyfer pob maes pwnc yn yr arolygiad yn cwrdd bob pythefnos ac maent yn atebol i'r grŵp llywio. Yn ogystal â chasglu'r dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer yr arolygiad, mae GTAGC wedi:
- cyfarfod â'r arolygydd o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i ddeall yn well beth yw trefn yr arolygiad;
 - paratoi pecyn tystiolaeth o ddeunydd ar gyfer y cyfnod cyn yr arolygiad, ac mae wedi anfon hwn at yr arolygydd arweiniol;
 - cysylltu â'r pum GTA arall sy'n cymryd rhan yn y rhaglen o arolygiadau eleni; a
 - dosbarthu gwybodaeth am yr ymweliad i'r holl staff.
- 10 Bydd yr aelodau'n cael gwybod beth yw canfyddiadau'r arolygiad. Bydd unrhyw argymhellion neu unrhyw welliannau a awgrymir ar ôl yr arolygiad yn cael eu hystyried, a lle bo angen, ymdrinnir â nhw drwy gynllun gweithredu.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Ddim yn berthnasol.
Cyllideb	Dim goblygiadau ariannol.
Cyfreithiol	Dim materion cyfreithiol yn uniongyrchol. Fodd bynnag bydd yr HSE yn arolygu'r gwaith sydd yn ofyniad cyfreithiol i GTAGC o dan y Ddeddf Gwasanaeth Tân ac Achub 2004.
Staffio	Dim goblygiadau staff ychwanegol. Bydd staff yn cefnogi'r ymweliad fel rhan o'u dyletswyddau arferol.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Ddim yn berthnasol.
Risgiau	Byddai adroddiad arolygiad gwael gan yr HSE o bosib yn peryglu enw da'r Awdurdod.